# Cofnodion

# Fforwm Rheoli Tir Cymru

Teitl y Cyfarfod: Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Skype

**Dyddiad y Cyfarfod:** 9 Medi 2020

**Yn bresennol:**

Bob Vaughan, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

John Browne, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Aled Jones, UAC

Hedd Pugh NFU Cymru

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Chris Blake, CNC

Anthony Geddes, Confor

Fraser McAuley, CLA Cymru

Spencer Conlon, LlC

Huwel Manley, CNC

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

James Owen, LlC (ar gyfer Eitem 5 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Marc Williams (Cydgysylltydd Llygredd Amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru, CNC)

**Ymddiheuriadau:**

Zoe Henderson, CNC

Mark Alexander, LlC

Sian Thomas, CFfI Cymru

Dominic Driver, CNC

Martyn P Evans, CNC

Katy Simmons, CNC

Geraint Davies, CNC

Tim Kirk, Confor

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Bob Vaughan bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr Agenda.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

3. Adolygwyd cofnodion y cyfarfod ym mis Mai 2020 gan y Grŵp a'u cymeradwyo gan eu bod yn gofnod cywir.

4. Eglurodd y Cadeirydd y bu problem o ran cyhoeddi cofnodion y cyfarfod ar wefan CNC am nad oedd y dogfennau pdf ar y ffurf gywir i fodloni'r amodau a bennwyd yn Rheoliadau Hygyrchedd Gwefannau 2018. Mae CNC yn delio â'r mater hwn ac yn gwneud y newidiadau perthnasol i'r dogfennau.

5. Adolygodd y Cadeirydd y Pwyntiau gweithredu a gwnaed y sylwadau a ganlyn:

   - PG02 Chwefror: Bod Mark Alexander yn gofyn am ragor o wybodaeth am y pecyn gwybodaeth argyfwng, pryd y bydd y pecyn ar gael a'r wybodaeth y mae'n debygol o'i chynnwys.

     - *Bydd Spencer Conlon yn rhoi gwybodaeth i'r grŵp.*

   - PG04 Chwefror: Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd y Dr Cerys Jones i roi cyflwyniad mewn cyfarfod o'r Fforwm yn y dyfodol.

- *Bydd y gwahoddiad i'r Dr Cerys Jones ddod i gyfarfod yn y dyfodol yn cael ei fwrw ymlaen tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn oherwydd yr amgylchiadau presennol. Bydd Bob Vaughan, CNC, yn rhoi diweddariad.*

- PG05 Chwefror: Bod Mark Alexander yn cael gair â chyd-weithwyr yn Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ar gyfer ffermwyr sy'n cael gwared ar goed ynn y mae clefyd coed ynn wedi effeithio arnynt.

  - *Mae Spencer Conlon yn cydgysylltu â'r gangen Polisi Adnoddau Coedwigaeth yn LlC a byddant yn rhoi diweddariad yn fuan iawn. Bydd hwnnw'n cael ei anfon at yr aelodau.*

- PG07 Chwefror: Bod yr Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu eto â Steve Ormerod ynghylch dod i un o gyfarfodydd y Fforwm yn y Dyfodol.

  - *Nid oedd Steve Ormerod yn gallu bod yn bresennol ond bydd yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr 2020.*

- PG01 Mai: Bod yr Aelodau'n cysylltu â Ruth Jenkins os ydynt am weld Cynllun Busnes CNC (Pawb).

  - *Nid yw'r aelodau wedi cysylltu â Ruth Jenkins.*

- PG02 Mai: Bod Spencer Conlon yn holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cymorth cyllid LlC ac yn rhannu'r wybodaeth â'r aelodau. Rhoddodd Spencer ddiweddariad ar gymorth cyllid LlC.

  - *Roedd cyllideb cylch 9 Glastir – Creu Coetir (GWC) yn £8 miliwn a chyflwynwyd 379 Datganiad o Ddiddordeb, gwerth £17.5 miliwn i Lywodraeth Cymru. Cynhelir gwiriadau cymhwystra ar y ceisiadau a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael contractau pan fydd y broses wedi'i chwblhau. Cafodd polisi Coetir Glastir ei drosglwyddo'n fewnol oddi mewn i LlC ac mae bellach dan y tîm Polisi Adnoddau Coedwigoedd. Rhoddwyd gwybod i Aled Jones, UAC, y bydd y gyllideb ar gyfer cylch nesaf GWC yn £10 miliwn. Cadarnhawyd hynny ac roedd yn rhan o ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog. Gofynnodd NFU Cymru beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf o ran Cylch 8 GWC. Darparodd Anthony Geddes ddiweddariad a dywedodd fod 47% o geisiadau Cylch 8 GWC yn cael eu prosesu ar hyn o bryd a'r dyddiad cau ar gyfer eu cwblhau oedd 5 Hydref.*

***PG01 Medi: Rhannu'r ffigurau ynghylch cylchoedd blaenorol GWC â'r aelodau (Marc Williams, CNC)***

- PG04 Mai: Bod CNC yn dosbarthu rhagor o wybodaeth i'r grŵp am gynlluniau i ymgysylltu yn y dyfodol ynghylch y Datganiadau Ardal (Martyn Evans, CNC).

  - *Bydd Huwel Manley yn cysylltu â Martyn Evans i ofyn am ddiweddariad ac yn ei rannu â'r aelodau.*

- PG05 Mai: Bod Martyn Evans yn trefnu cyfarfod i drafod y Datganiadau Ardal ag Arweinwyr y Datganiadau Ardal a Confor.

- *Cadarnhaodd Anthony Geddes nad oedd y mater hwn wedi symud ymlaen. Bydd Huwel yn trafod â Martyn ac yn rhoi diweddariad i'r aelodau.*

- Afancod – y newyddion diweddaraf gan Ruth Jenkins. Mae dau gais wedi dod i law CNC. Mae un ohonynt yn gais i gadw hyd at cwhe afanc ar ddarn o dir caeedig ar Afon Dyfi. Mae CNC o blaid rhoi'r drwydded ond mae'n sylweddoli bod diddordeb mawr ymhlith y cyhoedd, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal 'nawr am bedair wythnos ynghylch 'bwriad i roi trwydded', a hysbysebir hynny ar wefan CNC erbyn canol mis Medi. Mae'r ail gais yn brosiect pum mlynedd i ryddhau 10 pâr o afancod yn y gwyllt yn nalgylch afon Dyfi. Mae hyn yn dal i gael ei asesu gan CNC, sy'n aros am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd, a'r bwriad yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Nododd NFU Cymru y bydd angen i CNC ystyried hyd yr ymgynghori o dan yr amgylchiadau presennol er mwyn rhoi digon o amser i sefydliadau ymgynghori â'u haelodau.

- Clefyd Coed Ynn – mae John Browne wedi llunio papur dewisiadau ynghylch clefyd coed ynn, y mae modd ei anfon at y grŵp. Mae Confor wedi bod yn ceisio darbwyllo'r tîm Polisi Coedwigoedd yn LlC ers mwy na blwyddyn i gyhoeddi canllawiau ynghylch clefyd coed ynn. Mae pryder y gallai coed ynn achosi damweiniau angheuol ar ffermydd ac ystadau preifat oni chyhoeddir canllawiau. Mae angen cyhoeddi'r canllawiau hyn ar fyrder. Adleisiodd NFU Cymru'r pryder hwn yn enwedig ymhlith eu haelodau, a'r goblygiadau o ran costau. Mae angen mawr am ganllawiau a chyllid. Dywedodd Ruth Jenkins hefyd fod ffermwyr yn pryderu am yr effaith ar yr amgylchedd lleol. Soniodd Huwel Manley fod awdurdodau lleol yn penodi Swyddogion Clefyd Coed Ynn ac yn marcio coed ynn ger priffyrdd. Mae'r atebolrwydd am waredu'r coed hyn a'r costau sydd ynghlwm wrth hynny yn nwylo'r perchnogion tir. Dywedodd Dennis Matheson fod problem o ran coed ar dir tenant a phwy fydd yn cael y gorchymyn ac yn gorfod talu am waredu'r coed hyn. Ychwanegodd Anthony Geddes fod pryder pellach y bydd perchnogion tir/meddygon coed yn cael eu cyhuddo gan CNC o ddymchwel coed yn anghyfreithlon ar ôl i'r coed ynn mwyaf peryglus gael eu gwaredu. Mae angen integreiddio'r timau polisi a thrwyddedu/gorfodi ar y mater hwn.

***PG02 Medi: Dosbarthu'r papur dewisiadau ynghylch clefyd coed ynn i'r aelodau (John Browne, CNC)***

***PG03 Medi: Tynnu sylw tîm Ceri Witchard at yr angen brys am gyhoeddi canllawiau i berchnogion tir ar glefyd coed ynn (Ruth Jenkins, CNC)***

## Eitem 3 Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetir Fforwm Rheoli Tir Cymru

6. Rhannodd Chris Blake, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetir y Fforwm y newyddion diweddaraf a thynnodd sylw at ddiben y grŵp, sef nodi rhwystrau rhag creu coetir yng Nghymru a sut y mae cyflawni targedau LlC. Roedd hwn yn grŵp rhanddeiliaid yn hytrach na grŵp ymgynghori cyhoeddus. Cynhaliwyd tri chyfarfod hyd yn hyn gyda nifer da yn bresennol ynddynt. Y nod yw cyhoeddi adroddiad ym mis Chwefror, cyn etholiadau'r Senedd, a gaiff ei adolygu gan y grŵp hwn cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Gweinidog.

7. Mae Forest Research wedi darparu rhai adnoddau ar gyfer y grŵp. Bydd yn canolbwyntio ar y rhwystrau penodol y mae pob perchennog tir neu reolwr tir, gan gynnwys ffermwyr tenant, yn eu hwynebu a'r hyn y gallant ei wneud o ran creu coetir. Nid darnau helaeth o goetir yw'r rhain, ond maent yn cynnwys gwrychoedd a grwpiau bychain o goed. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Medi. Y cadarnle hyd yn hyn yw'r cymelliadau/buddsoddiadau ariannol ar gyfer creu coetir a bydd cael gafael ar gyllid yn fater allweddol bwysig wrth fynd ymlaen. Bydd yr adroddiad yn edrych ar y prosesau sydd ynghlwm wrth greu coetir ac a oes modd eu symleiddio. Mae awydd plannu coed ar dir amaeth ond bydd gwaith y grŵp yn edrych ar sut y gellir cyflawni hynny'n briodol.

8. Gofynnodd Sarah Hetherington a fydd yr adroddiad yn edrych ar 5 thema'r gwaith (Cyngor a Chanllawiau, Rheoleiddio, Dulliau Gweithredu Gwirfoddol, Buddsoddi ac Arloesi). Cadarnhaodd Chris Blake y bydd yr adroddiad yn edrych ar yr holl rwystrau a sut y gellir cyflawni 5 thema'r gwaith o safbwynt pob perchennog tir neu reolwr tir.

9. Cyfeiriodd Dennis Matheson at ddyhead LlC i blannu 10,000ha yng Nghymru erbyn 2020. Fodd bynnag, roedd yr Ystadegau Coedwigaeth a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn dangos mai 80ha yn unig o goetir a blannwyd ledled Cymru yn 2019. Mae'r amcangyfrifon o ran cyfanswm arwynebedd coetir yng Nghymru yn isel iawn. Mae'r ystadegau swyddogol yn dweud mai 15% o dir Cymru sy'n ardaloedd coediog ond cred Dennis fod o leiaf 5% arall sydd heb ei gofnodi. Roedd Dennis am dynnu sylw at y ffaith fod y Cynlluniau Creu Coetir yn un o'r bygythiadau mwyaf i denantiaethau amaethyddol yng Nghymru. Mae Confor ar gael i gefnogi a helpu ffermwyr tenant a byddai am droi'r bygythiad hwnnw yn gyfle.

## Eitem 4 Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Y Camau Nesaf

10. Ymunodd James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Maes Rheoli Tir yn LlC â'r cyfarfod i drafod Ffermio Cynaliadwy a'n Tir a'r camau nesaf. Ar ôl yr ymgynghoriad, cyhoeddodd LlC ddadansoddiad annibynnol ym mis Mai a gyflawnwyd gan Wavehill o Aberaeron. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad yn y Senedd ym mis Gorffennaf a oedd yn disgrifio ymateb polisi LlC ar ôl dadansoddi'r ymgynghoriad ac amserlen o'r hyn sydd i'w gyflawni dros y blynyddoedd nesaf.

11. Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau y bydd LlC yn cyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor presennol y Senedd a bod hwnnw'n cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Mae'r Papur Gwyn hwn yn wahanol iawn i'r ddau gyhoeddiad blaenorol, a oedd yn canolbwyntio ar adael yr Undeb Ewropeaidd a chynllun arfaethedig yn lle Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae'r Papur Gwyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer Bil y mae cynlluniau i'w gyflwyno ar ôl yr etholiadau ym mis Mai y flwyddyn nesaf. Bydd cwmpas y Bil yn llawer ehangach na'r ymgyngoriadau blaenorol a bydd yn disgrifio'r pwerau deddfwriaeth sylfaenol y mae eu hangen ar Lywodraeth Cymru er mwyn llywio amaethyddiaeth a choedwigaeth dros y 15-20 mlynedd nesaf. Mae'r darlun reoleiddio bresennol ar gyfer amaethyddiaeth yn gymhleth ac yn defnyddio'r rheolau trawsgydymffurfio yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Papur Gwyn yn cynnig creu set o safonau Gofynnol Cenedlaethol newydd ar gyfer rheoleiddio. Bydd hyn yn tynnu'r safonau trawsgydymffurfio ynghyd ac yn creu llinell sylfaen ar gyfer rheoleiddio amaethyddiaeth yn y dyfodol yn seiliedig yn bennaf ar y rheoliadau cyfredol gyda phwerau i'r Gweinidogion gyflwyno rheoliadau eilaidd er mwyn newid y llinell sylfaen dros gyfnod o amser. Bydd angen i berchnogion tir gydymffurfio â'r rheoliadau er mwyn cael mynediad i'r cynllun. Mae LlC yn

ymwybodol bod angen iddi fonitro a gorfodi'r ddwy agwedd, sef y rheoleiddio a'r cynllun, mewn modd cymesur. Mae'r polisi hwn yn cael ei ddatblygu ac mae'r cynnig yn cyflwyno trefn sancsiynau sifil ochr yn ochr â'r safonau rheoleiddio gofynnol cenedlaethol a fydd yn galluogi bwlch allweddol. Bydd pwerau i gymhwyso fframwaith sy'n cwmpasu hysbysiadau stop a chosbau ariannol sefydlog/amrywiol ar gyfer achosion mwy difrifol o dorri'r rheoliadau.

12. Mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli bod cyfle i ddefnyddio data ac mae un o'r penodau'n ddibynnol ar y dull gweithredu o ran trin data a sut y mae data'n cael eu casglu, eu rhannu a'u defnyddio'n effeithiol. Mae'n bwysig rhannu data â'r ffermwyr er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar lefel y fferm. Gall fod yn sefyllfa lle bydd pawb ar ei ennill, ar sawl lefel. Os oes modd i ni leihau'r baich gorfodi a rheoleiddio, gallwn ddefnyddio dull arolygu sy'n fwy seiliedig ar risg. Byddai rhannu'r data sydd gan LlC am ddosbarthiad tir amaethyddol yn galluogi ffermwyr i benderfynu beth y gallant fod am ei wneud neu beidio â'i wneud ar eu ffermydd. Gwneir hynny i leihau natur ddigyswllt y drefn arolygu a gorfodi sydd ar waith ar hyn o bryd.

13. Bydd y Papur Gwyn yn cynnwys ystod o ddarpariaethau ynghylch coedwigaeth, er mwyn cyflawni uchelgais y Goedwig Genedlaethol a'r targedau plannu. Bydd y rhain yn darparu'r ddeddfwriaeth sylfaenol i alluogi LlC i gyflawni'r uchelgeisiau hynny ac yn galluogi'r Gweinidogion i gadw pwerau o ran cyflawni'r targedau coedwigaeth.

14. Bwriedir cyhoeddi'r Papur Gwyn yn Rhagfyr 2020 er mwyn cymryd camau ar fyrder ar ôl yr etholiadau i roi Bil gerbron y Senedd a chyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol cyn i'r pwerau fynd yn ddi-rym yn 2024. Y nod yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2021/22 gyda'r ddeddfwriaeth eilaidd yn dilyn yn 2022/23. Caiff y cynllun newydd, y cyfnodau pontio a'r llinell sylfaen reoleiddiol eu cyflwyno yn 2024.

15. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i gael mewnbwn da gan randdeiliaid ar y sylfaen dystiolaeth y mae'n ei datblygu i gefnogi'r cynigion hyn. Mae'n gwneud llawer o waith yng nghyswllt y dadansoddiad economaidd o'r cynllun arfaethedig a deall y cyswllt rhwng y deilliannau amgylcheddol a geisir a'r camau y bydd angen i ffermwyr eu cymryd. Mae LlC yn modelu'r ystod o wahanol fathau o ffermydd ar draws Cymru er mwyn deall y gwahanol effeithiau y bydd y cynigion yn eu cael arnynt, ond hefyd i benderfynu sut y mae pennu gwerth y cynllun. Bydd LlC yn ysgrifennu at randdeiliaid ac yn eu gwahodd i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth. Bydd gweithdai i gyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael eu cynnal yn ystod yr hydref. Mae LlC wedi cynnal ystod o arolygon a chyfweliadau unigol trwy Menter a Busnes.

16. Gofynnodd James Owen i'r grŵp sut y gall LlC ymgysylltu â'r aelodau yn y dyfodol a beth fyddai'r ffordd orau o rannu gwybodaeth er mwyn cynnal cysylltiad ac ymgysylltiad. Mae Bob Vaughan yn sicr y bydd y grŵp yn ymateb i her beth bynnag y bydd LlC yn ei roi gerbron ac yn ymgysylltu ar draws y sector.

17. Dywedodd Fraser McAuley, CLA nad oedd llawer o fusnesau ffermio yn ymwybodol o'r newidiadau a fydd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf a bod angen cydlynu ymgyrch felly gyda LlC a rhanddeiliaid eraill i gyfathrebu ynghylch y newidiadau hyn yn y blynyddoedd nesaf. Roedd James Owen yn cytuno a nododd bod cyfle wedi'i golli eleni gan na fu sioeau i ymgysylltu â ffermwyr. Ar hyn o bryd, mae LlC yn canolbwyntio ar ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid ond mae'n deall bod angen ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr. Mae James Owen yn fodlon dod i unrhyw ddigwyddiadau i

randdeiliaid i egluro camau nesaf y cynllun. Mae LlC yn cynllunio ymgysylltiad uniongyrchol â ffermwyr ynghylch y Papur Gwyn, a fydd yn rhoi mwy o sylw i'r elfennau gorfodi a rheoleiddio.

18. Nododd Anthony Geddes, Confor, nad oedd sôn am goedwigaeth yn yr ymgynghoriad diwethaf, ym mis Gorffennaf ynghylch symleiddio cymorth amaethyddol a rhybuddiodd fod LlC yn symud tuag at iaith nacaol a fydd yn tramgwyddo sectorau wrth gyflenwi a chyflawni'r deilliannau a ddymunir.

19. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, a fyddai Asesiad Effaith i gyd-fynd â'r Papur Gwyn, yn enwedig o ran y rheoliadau arfaethedig. Cadarnhaodd James Owen y bydd Asesiad Effaith a'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn. Bydd yr Asesiad Effaith yn ddogfen fyw a fydd yn datblygu ac yn cynnwys tystiolaeth bellach wrth i'r Papur Gwyn ddod yn Fil.

20. Holodd Ruth Jenkins a oes syniadau gan Lywodraeth Cymru y gall y grŵp ymwneud â nhw neu a yw'n fater o rannu gwybodaeth â'r grŵp. Mae James Owen yn agored i rannu gwybodaeth â'r grŵp am ddatblygiadau a chwestiynau penodol ynghylch y cynigion, megis y dystiolaeth a'r data sydd ar gael.

***PG04 Medi: Bod Bob Vaughan yn trafod yr amserlenni gyda James Owen ac yn trefnu gweithdy i gydlynu syniadau a thystiolaeth.***

21. Gofynnodd Sarah Hetherington a yw'r Papur Gwyn yn mynd i roi sylw i'r fframwaith cyllido sy'n rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Nododd James Owen y bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn diffinio'r cyllid y bydd LlC yn ei gael yn y dyfodol. Mae LlC yn llunio fframwaith cyllido yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan edrych ar ddau gyfnod amser. Mae'r un cyntaf yn pontio rhwng nawr ac adeg cyflwyno'r cynllun newydd, gan ddefnyddio cyllid domestig, ac mae'r ail yn edrych ar y fframwaith cyllido wedi hynny.

## Eitem 5 Diweddariad CNC

22. Dywedodd Huwel Manley mor ddefnyddiol ac effeithiol oedd y gweithdy ymgysylltu â'r Datganiadau Ardal a gynhaliwyd y llynedd yn Llanelwedd a holodd tybed a fyddai'n ddefnyddiol cynnal digwyddiad tebyg ar ffurf rhith-gyfarfod. Byddai'r digwyddiad yn edrych ar rai o'r materion y gall fod angen rhoi sylw iddynt. Roedd Anthony Geddes yn croesawu digwyddiad arall a fyddai'n cynnwys mwy o sectorau coedwigaeth er mwyn darparu adborth cryfach.

23. Nododd Rachel Lewis-Davies ei bod yn anodd iawn i rith-ddigwyddiad ddenu sylw ffermwyr a pherchnogion tir a bod yn rhan o sesiwn hir. Mae angen sicrhau bod modd trefnu digwyddiad sy'n ystyrlon ac yn ddefnyddiol.

24. Gall Datganiadau Ardal fod yn allweddol o ran cyfannu at y gwaith y mae James Owen yn edrych arno yng nghyswllt y cynigion yn y Papur Gwyn.

***PG05 Medi: Edrych ar gynnal digwyddiad arall i randdeiliaid amaethyddol a choedwigaeth ynghylch Datganiadau Ardal ar ffurf rhith-gyfarfod (Huwel Manley/Martyn Evans, CNC)***

25. Rhannodd Bob Vaughan yr wybodaeth ddiweddaraf am broblemau gordyfiant algâu yn ystod yr haf ar afonydd Gwy ac Wysg ynghyd â rhannau eraill o Gymru. Mae CNC yn cynnal gwaith asesu ffynonellau llygredd ar afon Gwy ac yn edrych ar y data. Caiff hwn ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Medi. Dangosodd gwaith monitro ar afon Gwy fod y lefelau ffosffad wedi gostwng dros y blynyddoedd.

26. Mae'r ymgynghoriad ynghylch y Canllawiau Sgrinio Amonia yn agored ar wefan CNC ac estynnwyd y cyfnod ymgynghori tan fis Tachwedd oherwydd COVID-19. Nid yw'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn sylweddol wahanol i'r canllawiau presennol. O ganlyniad, bu CNC yn trafod cyngor cynllunio ag undebau'r ffermwyr ac mae hwnnw'n cael ei adolygu'n fewnol ar hyn o bryd er mwyn atal unrhyw gyngor anghyson.

27. Roedd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, yn croesawu'r estyniad i'r cyfnod ymgynghori ac yr oedd am ddangos yn glir bod y cynigion yn yr ymgynghoriad yn sylweddol wahanol gan eu bod yn berthnasol i ddatblygiadau ar bob fferm. Yn flaenorol, roeddent yn berthnasol i ffermio dwys, a ddiffiniwyd fel ffermydd moch a dofednod. Mae'r Ddeddf Awyr Glân yn cynnwys targedau penodol ar gyfer lleihau amonia o fyd amaeth a chred NFU Cymru y bydd cymhwyso'r Canllawiau Sgrinio Amonia yn rhwystr pennaf rhag cyflawni'r targedau hynny. Mae NFU Cymru wedi cael ar ddeall bod y ffordd y mae CNC yn cymhwyso'r canllawiau presennol eisoes wedi newid a hynny yn sgil newidiadau i'r canllawiau mewnol.

***PG06 Medi: Bod NFU Cymru yn cael copi o Ganllawiau Mewnol CNC ar Sgrinio Amonia ynghyd ag unrhyw fersiynau blaenorol (CNC)***

28. Cyflwynodd Ruth Jenkins, CNC, ddiweddariad ar Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 a dywedodd fod y penodau wedi cael eu hadolygu'n allanol. Bydd yr holl benodau'n cael eu golygu er mwyn cynhyrchu'r penodau terfynol a'u cyflwyno fel fersiwn un llais. Bydd adroddiad cryno a'r Gofrestr Adnoddau Naturiol yn cael eu cynhyrchu ym mis Rhagfyr 2020 gyda'r penodau olaf yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Holodd Rachel Lewis-Davies a fyddai'r penodau yn ddogfennau gwe yn hytrach na chopïau papur. Mae cyhoeddi dogfennau ar y We yn unig yn destun pryder i Rachel ac nid yw gwefan CNC yn dangos ar ba ddyddiad y cafodd tudalen ei diweddaru ddiwethaf. Roedd Marc Williams, CNC wedi sicrhau pawb y bydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn cael ei gyhoeddi ar y We ac ar ffurf pdf. Nododd John Browne, CNC fod gwefan CNC yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd oherwydd y rheoliadau hygyrchedd gwefannau ac y bydd cyfyngu ar nifer y dogfennau pdf sy'n cael eu lanlwytho. Mae'n bosibl mai dull seiliedig ar y We fydd y ffordd newydd o weithio yn y dyfodol.

29. Soniodd Ruth Jenkins, CNC, fod Syr David Henshaw, Cadeirydd CNC yn rhan o'r grŵp Adferiad Gwyrdd ac os bydd unrhyw aelodau am gael yr wybodaeth ddiweddaraf, dylent roi gwybod i CNC. Cyflwynwyd llawer o syniadau i'r grŵp, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd.

## Eitem 6 Diweddariad gan Aelodau eraill Fforwm Rheoli Tir Cymru

30. UAC: Eglurodd Aled Jones, UAC, fod UAC wedi bod yn cydgysylltu ag aelodau sirol ac aelodau o'r pwyllgorau ynghylch yr ymgynghoriad ar y cydberthnasoedd contractiol yn

niwydiant llaeth y Deyrnas Unedig. Nododd UAC fod pryderon am dai gwledig a'r cynnydd yn nifer a phrisiau'r tai sy'n cael eu gwerthu gan fod pobl yn symud allan o'r dinasoedd neu'n prynu ail gartrefi. Cawsant adroddiadau o un sir lle'r oedd un prynwr wed prynu pum tŷ gyda'r bwriad o gynnig cartrefi gwyliau i'w rhentu. Mae UAC wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y mater hwn. Ymateb i ymgynghoriad LlC ynghylch symleiddio'r cymorth amaethyddol yw'r prif sylw i UAC ar hyn o bryd.

Bu Ruth Jenkins yn ystyried a oes cyfle i gysylltu materion tai gwledig â gwaith yr Adferiad Gwyrdd, yn enwedig yng nghyswllt deilliannau COVID-19. Mae Rachel Lewis-Davies wedi ysgrifennu at y Gweinidog Tai ynghylch tai cynaliadwy a'r cyfleoedd i ddefnyddio mwy o wlân, sy'n gynnyrch eithriadol o gynaliadwy, yn lle plastigion. Nododd Chris Blake bod 160 o gynigion ar gyfer Adferiad Gwyrdd ond bod creu marchnadoedd ar gyfer gwlân yn un o'r themâu.

31. NFU Cymru: dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod yr Undeb wedi cyhoeddi papur ym mis Gorffennaf ynghylch COVID-19 a dogfen Amaethyddiaeth Sero-net erbyn 2040. Mae'r papur ynghylch cyrraedd Sero-net wedi ysgogi llawer o ddiddordeb, yn enwedig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bu UAC ac NFU Cymru yn cynnal cyd-gyfarfod â Swyddfa'r Cabinet, gyda Nigel Topping yr Hyrwyddwr Gweithredu ynghylch yr Hinsawdd ar Lefel Uchel ar gyfer COP26. Mae NFU Cymru yn dal i gefnogi aelodau trwy'r pandemig ac mae'n ymateb i nifer o ymgyngoriadau ar lefel uchel. Lansiodd arolwg yn ddiweddar er mwyn datblygu gweledigaeth ar gyfer ffermio ucheldir Cymru, a fydd yn datblygu gwaith ymchwil gyda'r canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiad.
32. Confor: Eglurodd Anthony Geddes, Confor, y bu newidiadau yn y sefydliad yn dilyn ailstrwythuro. Penodwyd yr Arglwydd Ian Duncan yn Gadeirydd newydd Confor. Mae Confor yn ymateb i nifer o ymgyngoriadau ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ymgynghoriad ynghylch cynllun pum mlynedd CNC ar gyfer marchnata pren. Roedd ymateb da iawn i Ffenestr 9 cynllun Creu Coetir Glastir gyda cheisiadau sy'n cwmpasu mwy na 4,000ha a phob un ohonynt wedi'u cyflwyno gan gynllunwyr coetir cymwysedig. Mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'r targed o 2,000ha dros y ddwy flynedd nesaf.

33. TFA: Nododd Dennis Matheson, TFA, y prif faes gwaith, sef tynnu sylw Llywodraeth y Deyrnas Unedig at yr angen am wneud newidiadau i'r Bil Amaethyddiaeth mewn perthynas â materion tenantiaeth. Mae TFA wedi ennyn cefnogaeth i'r newidiadau gan aelod o Dŷ'r Arglwyddi ynghyd â Phwyllgor yr Amgylchedd a'r Newid yn yr Hinsawdd yn y Senedd. Pryder arall yw'r nifer mawr o bobl a thraffig yn yr ardal, yn enwedig ar ffyrdd bach, sy'n tarfu ar ffermwyr ac yn rhwystro mynediad i gaeau neu lwybrau. Nododd Rachel Lewis-Davies fod nifer y problemau gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â mynediad, gwersylla gwyllt a thipio anghyfreithlon, wedi cynyddu oherwydd COVID-19. Ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i berchnogion tir sy'n gorfod glanhau'r llanastr sy'n cael ei adael ar ôl.

34. CLA: Cyflwynodd Fraser McAuley, CLA Cymru, ddiweddariad ysgrifenedig a dywedodd eu bod wedi delio ag ystod eang o ymholiadau gan eu haelodau ynghylch COVID-19, cynllunio a'r polisi amaethyddol yn y dyfodol. Mae CLA yn sefydlu nifer o weithgorau bach i'r aelodau i edrych ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig â'r Papur Gwyn sydd ar ddod. Maent yn gweithio hefyd ar bapur Cynllunio ar gyfer Cymru a phapur ynghylch llygredd amaethyddol ar gyfer cyfarfodydd nesaf pwyllgor Polisi Cymru.

35. Llywodraeth Cymru: Nid oedd rhagor o ddiweddariadau i'w rhoi.

## Eitem 7 Diweddariadau gan y Fforymau

36. Mae Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol wedi oedi'r cyfarfodydd am ychydig o fisoedd oherwydd pwysau gwaith a'r ffaith bod yr aelodau'n cymryd gwyliau. Mae'r Is-grŵp wedi tanlinellu nifer o argymhellion blaenoriaethol a gaiff eu hyrwyddo a bydd yr egwyl fer yn caniatáu i'r aelodau adolygu'r rhain a dod â syniadau i'r cyfarfodydd. Bydd y grŵp yn ailgynnull ym mis Hydref.

37. Cafodd cofnodion y Fforwm Pysgodfeydd eu dosbarthu i aelodau'r grŵp.

38. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ym mis Hydref. Nid oedd dim diweddariadau.

## Eitem 8 Manylion y cyfarfodydd yn y dyfodol

39. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw:

- Dydd Llun 7 Rhagfyr 2020

40. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau roi gwybod i CNC os oes unrhyw bynciau y mae angen eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.

## Eitem 9 Unrhyw Fater Arall

41. Gofynnodd Rachel Lewis-Davies a oedd unrhyw sôn am amserlen ar gyfer yr Adolygiad Barnwrol o Drwyddedau Cyffredinol. Eglurodd Ruth Jenkins nad oes amserlen ar hyn o bryd a bod CNC yn aros am ragor o fanylion.

42. Nododd Dennis Matheson, TFA, nad yw Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru yn caniatáu hawlio am grwpiau o goed, yn wahanol i Loegr. Byddai TFA yn hoffi annog CNC i ddarbwyllo LlC i newid y rheolau hyn ac i beidio â chosbi ffermwyr am fod coed ganddynt. Dylai'r cynllun eithrio boncyff y goeden ond nid y canopi cyfan. Mae hyn yn gwbl groes i bolisi LlC ar blannu rhagor o goed a gofalu am y rhai sy'n bodoli'n barod. Eglurodd Ruth Jenkins y bydd angen i'r mater hwn gael ei godi gyda James Owen yn LlC a'i ystyried yn rhan o'r cynllun at y dyfodol. Nododd Rachel Lewis-Davies y bydd y cynllun at y dyfodol yn cael ei gyflwyno yn 2024 a bydd angen ystyried y deilliannau amgylcheddol sydd i'w cyflawni yn y cyfamser.

## Diwedd y Cyfarfod